| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor Sir | Dyddiad: | 21 Mawrth 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824712589 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod arbennig y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 27 MAWRTH 2012** am **10.00 am** yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu unrhyw fater sydd i'w drafod yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 1 - 2)

Cydnabod ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5 ADOLYGU'R CYFANSODDIAD** (Tudalennau 3 - 12)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) gyda'r pwrpas o foderneiddio Cyfansoddiad y Cyngor a chymeradwyo newidiadau arfaethedig.

**6 ADOLYGU GWASANAETH Y CRWNER** (Tudalennau 13 - 22)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm). Pwrpas yr adroddiad yw ystyried a chymeradwyo opsiynau'n ymwneud â darparu gwasanaeth Crwner a gwaith gweinyddol ategol ar gyfer awdurdodaeth Gogledd-ddwyrain Cymru a Chanol Gogledd Cymru.

**7 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR I'R DYFODOL** (Tudalennau 23 - 24)

Ystyried y rhaglen amgaeëdig o waith i'r dyfodol.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**Rhan 2**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**8 CYNLLUN CYFALAF 2011/12 – 2014/15** (Tudalennau 25 - 58)

Ystyried adroddiad cyfrinachol (copi ynghlwm) gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau sy'n diweddaru'r Cyngor ar y prosiectau mawrion ac yn gofyn am gymeradwyo'r Cynllun Cyfalaf.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Ian Armstrong | Neville Hughes |
| Raymond Bartley | Rhiannon Hughes |
| John Bellis | Rhys Hughes |
| Brian Blakeley | Glyn Jones |
| Joan Butterfield | Huw Jones |
| June Cahill | Morfudd Jones |
| Jeanette Chamberlain-Jones | Richard Jones |
| William Cowie | Gwyneth Kensler |
| Ann Davies | David Lee |
| Carl Davies | Paul Marfleet |
| James Davies | Lucy Morris |
| Meirick Davies | Peter Owen |
| Pauline Dobb | Dewi Owens |
| Peter Duffy | Allan Pennington |
| Michael Eckersley | Barbara Smith |
| Christine Evans | David Smith |
| Gwilym Evans | David Thomas |
| Hugh Evans | Selwyn Thomas |
| Bobby Feeley | Julian Thompson-Hill |
| Sharon Frobisher | Cefyn Williams |
| George Green | Eryl Williams |
| Ian Gunning | Glyn Williams |
| Diana Hannam | Jane Yorke |
| Colin Hughes | |

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd/Events attended by the Chairman**
**01.03.12 - 20.03.12**

| Dyddiad/Date | Digwyddiad/Event | Lleoliad/Location |
|---|---|---|
| 01/03/12 | Agoriad Swyddogol Llys Awelon / Official Opening of Llys Awelon - Extra Care Housing Scheme | Rhuthun / Ruthin |
| 02/03/12 | Ymweliad Hugh Lewis AC â Y Rhyl / Visit to Rhyl by Hugh Lewis AM | Y Rhyl/Rhyl |
| 02/03/12 | Dawns Elusennol Maer Llanelwy / Mayor of St. Asaph's Charity Ball | Llanelwy / St. Asaph |
| 09/03/12 | Lawnsiad Strategaeth Hamdden / Leisure Strategy Launch | Rhuthun / Ruthin |
| 12/03/12 | 100 mlwyddiant yr Arglwydd Langford / Lord Langford's 100th Birthday | Rhuddlan |
| 12/03/12 | Cyfarfod ag Ymwelwyr o Wlad Pwyl / Meeting Polish Guests | Rhuthun / Ruthin |
| 14/03/12 | Seremoni Wobrwyo Blynyddol 'Crimebeat' Uchel Siryf Clwyd/ High Sheriff of Clwyd's Annual 'Crimebeat' Awards Ceremony (Is-Gadeirydd wedi mynychu / Vice-Chair attended) | Wrecsam / Wrexham |
| 15/03/12 | Trosglwyddo goriadau Neuadd y Dref i Gyngor Dref Llangollen / Handing over of Town Hall Keys to Llangollen Town Council | Llangollen |
| 15/03/12 | Seremoni Dinasyddiaeth / Citizenship Ceremony | Rhuthun / Ruthin |
| 15/03/12 | Digwyddiad Euroscola Event | Rhuthun / Ruthin |
| 16/03/12 | Ymweliad Ysgol Pant Pastynog â Neuadd y Sir / Pant Pastynog School visit to County Hall | Rhuthun / Ruthin |
| 20/03/12 | Cabinet | Rhuthun / Ruthin |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i:** **Cyngor Llawn**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **27 Mawrth 2012**

**Aelod/ Swyddog Arweiniol:** **Cynghorydd Hugh Evans/Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Awdur yr Adroddiad:** **Lisa Jones – Dirprwy Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Adolygiad o'r Cyfansoddiad**

---

**1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?**

Un Llif Gwaith Bwrdd Trawsnewid Busnesau yw adolygu Cyfansoddiad y Cyngor

Gofynnir i aelodau ddod â chopi o'r cyfansoddiad presennol gyda nhw i'r cyfarfod hwn a hefyd y copi diwygiedig (fydd yn cael ei anfon mewn clawr ar wahân) lle mae'r newidiadau wedi'u hamlygu er mwyn gwneud cyfeirio'n haws.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Yn ôl y gyfraith, disgwylir bod gan y Cyngor gyfansoddiad a gyda'r paratoadau ar gyfer y Cyngor newydd o fis Mai 2012, mae'n gyfle gwych i foderneiddio'r fersiwn presennol gan ei wneud yn fwy eglur i Aelodau, Swyddogion a'r cyhoedd yn gyffredinol, Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r newidiadau i'r cyfansoddiad.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cyngor yn penderfynu ar ba mor aml y mae'n orfodol i Aelodau fynychu hyfforddiant ar God Ymddygiad Aelodau, yn cymeradwyo mai'r terfyn isaf i gofrestru rhoddion a lletygarwch yw £25 ac yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig i adlewyrchu'r gofynion hyn.

3.2 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Protocolau y cyfeiriwyd atyn nhw ym mharagraff 4.15.

3.3 Bod y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad fel yr amlinellwyd ym manylion yr adroddiad isod.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 **Cod Ymddygiad**

Mae Aelodau'n awr yn ymwybodol bod nifer o awdurdodau'n rhoi terfyn ariannol yn eu cod ymddygiad. O dan y terfyn hwn, nid oes yn rhaid cofrestru rhoddion a

lletygarwch. Nid oes gan god ymddygiad presennol Sir Ddinbych unrhyw ffigwr sy'n golygu y byddai'r Aelodau'n torri'r cod ymddygiad os bydden nhw'n derbyn unrhyw rodd a lletygarwch beth bynnag eu gwerth ond heb eu cofrestru. Y cynnig yw eu bod yn gosod y terfyn hwn ar £25, sef y lefel y byddai'n briodol i ganiatáu i Aelodau dderbyn rhoddion a lletygarwch heb bod angen cofrestru. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cadarnhau'r lefel hon ac yn argymell i'r Cyngor y dylid gosod y lefel hon.

Hefyd, mae consenswsm cyffredinol o'r ymgynghoriad y dylai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fod yn orfodol. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Safonau ar y cynnig hwn yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth a phenderfynodd y mwyafrif o'r aelodau y dylai hyfforddiant blynyddol fod yn orfodol i bob Aelod. Roedd yr adroddiad a dderbyniodd y Swyddog Monitro am y mater hwn yn argymell y dylai hyfforddiant fod yn orfodol unwaith ym mhob tymor yn y swydd, (h.y. unwaith bob pedair blynedd) ac na fyddai unrhyw bresenoldeb dros y lefel hon, yn orfodol ond yn arfer da. Felly, mae'n fater i'r Aelodau ynglŷn a pha ofyn sydd i'w osod. Er mwyn gwneud hyn yn orfodol, drafftiwyd y Cyfansoddiad a'r Cod Ymddygiad i adlewyrchu'r goblygiad hwn, a dylai Aelodau fod yn ymwybodol y byddai methu â mynychu'r hyfforddiant ynddo'i hun yn torri'r cod. Cyfeirir yr Aelodau at y geiriau ychwanegol yn y Cod Ymddygiad fel y gwelir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad.

4.2 **Disgrifiadau o Rolau Aelodau**

Yn dilyn y gweithdy i Aelodau, lle'r oedd y rhain yn cael eu trafod, mae'r Swyddogion wedi ystyried sylwadau'r Aelodau ac wedi drafftio rhai newidiadau i'r disgrifiad.

4.2 **Hyrwyddwyr**

Mae nifer o Aelodau wedi ymgymryd â rolau Hyrwyddwyr a theimlai'r Swyddogion y dylid cynnwys hyn o fewn y Cyfansoddiad newydd gan adlewyrchu'r ymrwymiad pwysig hwn.

4.3 **Cabinet**

Fel rhan o'r gweithdy, cafodd yr Aelodau wybodaeth am y broses lle'r oedd penodiadau'n cael eu gwneud i'r Cabinet. Ar hyn o bryd, mae'r Cabinet yn Sir Ddinbych yn gytbwys o safbwynt gwleidyddiaeth. Gall yr Arweinydd benodi Cynghorwyr i'r Cabinet ar ôl ymgynghori gydag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol. Os bydd grŵp gwleidyddol yn edwino pan fydd y Cabinet yn cael ei benodi, er mwyn derbyn unrhyw neu bob sedd ar y Cabinet, gall yr Arweinydd benodi Cynghorwyr i lenwi'r swyddi yn dilyn ymgynghoriad pellach gydag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol. Ni fydd rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn gymwys i lenwi swyddi o'r fath.

Nid oes unrhyw ofyn o fewn y gyfraith i'r Cabinet fod yn gytbwys yn wleidyddol. Mae Adran 24 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn eithrio cyrff gweithredol o gydbwysedd gwleidyddol.

Hysbyswyd Aelodau o gynnig oedd wedi codi yn ystod ymgynghoriad a'i gyflwyno i'r Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad sef na ddylai rheolau cydbwysedd gwleidyddol fod yn gymwys i'r Cabinet gan y gallai hyn roi symbyliad i grwpiau ymrannu yn nifer amrywiol posibl o grwpiau llai mewn ymgais i drin y rheolau ar gydbwysedd gwleidyddol. Y cynnig a wnaed i'r Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad oedd y dylid cymhwyso egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol i benodiadau i'r Cabinet ond dim ond i grwpiau gydag aelodaeth o 5 neu fwy. Ystyriwyd hyn i fod yn gyson gyda'r cynigion i Banel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru sydd wedi penderfynu y dylid talu cyflogau Arweinwyr Grwpiau i arweinwyr grwpiau gyda 10% neu fwy o aelodaeth yr awdurdod a gyda chynllun presennol Sir Ddinbych o lwfansau sy'n talu lwfans Arweinydd Grŵp i arweinydd grŵp gyda 5 neu fwy o aelodau.

Roedd y drafodaeth yn y gweithdy'n datgelu barn gyffredin y byddai hyn yn hybu sefydlogrwydd gwleidyddol o fewn y Cyngor. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr Aelodau y dylid cynnwys y cynnig hwn yn y Cyfansoddiad.

4.4 **Cynllunio**

Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n gwbl ymwybodol o'r gofyn i fynychu hyfforddiant er mwyn cymryd rhan yn y broses lled-farnwrol hon. Gosodir y goblygiad hwn yn awr yn y Cyfansoddiad ac mae'r Protocol Cynllunio y cytunodd yr Aelodau iddo yn 2008 hefyd wedi'i osod yn adran Protocolau'r Cyfansoddiad.

4.5 **Pwyllgor Safonau**

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn wedi'i ddiwygio a bydd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn gan y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau am gwynion o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau. Hefyd, yng Ngweithdy'r Aelodau ar 24 Ionawr 2012 teimlai'r Aelodau bod gan y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol rôl i'w chwarae am bresenoldeb aelodau mewn hyfforddiant a'r opsiwn o gyfeirio at y Pwyllgor Safonau.

4.6 **Erthygl 12 – Swyddogion Statudol**

Mae pob Swyddog Statudol wedi'i enwi o fewn yr adran hon gyda chyfeiriad at Ran 9.2 sy'n cynnwys y cynllun cynhwysfawr o ddirprwyo i'r Swyddogion hyn.

4.7 **Erthygl 13 – Gwneud penderfyniadau**

Y goblygiad ychwanegol hwn yw sicrhau bod Cydraddoldebau'n cael eu hystyried a dyletswydd y sector cyhoeddus i gydymffurfio gyda'r ddeddf gydraddoldeb.

4.8 **Arwyddo a Selio Dogfennau**

Ers i swydd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod yn ddiangen, gwelwyd oedi mewn amseroedd arwyddo cytundebau ac achosion llys. Y cynnig yw ymestyn

y nifer o arwyddwyr awdurdodedig i rai lefelau uwch personél cyfreithiol cymwys o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

4.9 **Adolygiad Parhaus o'r Cyfansoddiad**

Y cynnig yw bod eitem flynyddol sefydlog o leiaf, yn y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol a'r Cyngor Llawn, i alluogi'r Cyngor i fabwysiadu newidiadau i'r Cyfansoddiad yn y dyfodol. Bydd newidiadau ar y gorwel, fel y Mesur Llywodraeth Leol Cymru, hefyd yn gofyn am i'r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw oblygiadau newydd.

4.10 **Disgrifiad o Swyddogaethau**

Mae Rhan 3 o'r Cyfansoddiad presennol yn rhoi disgrifiad o swyddogaethau'r awdurdod ac yn disgrifio'r swyddogaethau hynny sy'n cael eu gweithredu gan y Cyngor a'r rhai sy'n cael eu gweithredu gan y Cabinet. Ar hyn o bryd, mae'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at reoliadau sydd ers hynny wedi'u diweddaru ac yn disgrifio swyddogaethau drwy gyfeirio at y rheoliadau. Nid yw'n glir o eiriad y Cyfansoddiad, i swyddog, Aelod neu aelod o'r cyhoedd, pa rai yw swyddogaethau'r Cyngor a pha rai yw swyddogaethau'r Cabinet heb gyfeirio at y rheoliadau. Cynigiwyd i Aelodau y dylai Rhan 3 y Cyfansoddiad restru'r swyddogaethau hynny sy'n swyddogaethau'r Cyngor, y swyddogaethau hynny sy'n swyddogaethau "dewis lleol", a'r swyddogaethau sy'n cael eu gweithredu gan y Cabinet neu'r Cyngor Llawn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r swyddogaethau hynny sy'n gyfrifoldeb y Cabinet. Amlinellir y fformat hwn yn y cyfansoddiad drafft ac er ei fod yn gwneud y Cyfansoddiad yn hwy, bydd yn ei wneud yn gliriach i swyddogion, Aelodau ac aelodau'r cyhoedd.

4.11 **Cylch Gorchwyl y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau yn y gweithdy am feysydd oedd angen eu diweddaru. Mae angen diweddaru rhestr pwerau'r Pwyllgor Trwyddedu er mwyn cynnwys cyfeiriadau at Ddeddf Gamblo 2005. Rhaid diwygio cylch gorchwyl y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol i gynnwys ystyried presenoldeb a hyfforddiant aelodau. Byddai'n rhaid adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio i sicrhau bod y pwerau a ddisgrifir yn y cylch gorchwyl hwnnw'n gyfredol.

4.12 **Craffu**

Mae'r cyfansoddiad presennol yn cyfyngu ar y nifer o alwadau i mewn y gellir eu gwneud ac er nad yw galwad i mewn yn ddigwyddiad cyffredin, mae anghysondeb gyda'r ddeddfwriaeth i roi terfyn ar y gallu hwn i graffu. Felly, y newid bach ca yw dileu'r terfyn hwn.

4.13 **Rheolau Gweithdrefnau Contractau**

Fel rhan o'r gweithdy, cafodd yr Aelodau wybodaeth am yr hyblygrwydd cynyddol a all fod ar gael o safbwynt gwasanaethau "Rhan B".

- Pan fydd Corff Cyhoeddus yn caffael nwyddau, gwasanaethau neu waith, rhaid iddo gydymffurfio gyda Deddfwriaeth Caffael yr UE sydd wedi'i mabwysiadu i mewn i'n deddfau cenedlaethol drwy Reoliadau Contractau'r Sector Cyhoeddus 2006 y cyfeirir atyn nhw'n gyffredin fel Rheoliadau OJEU.

- Y pwynt dechreuol yw'r egwyddorion UE gor-redol y dylid cael gonestrwydd, tryloywder a thriniaeth gyfartal i gynigwyr. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob caffael beth bynnag yw'r math o wasanaeth rydyn ni'n ei gaffael.

- Mae'r Rheoliadau hyn yn gwahanu caffael yn naill ai caffael wedi'i reoli'n llwyr o dan 'Rhan A' neu, gaffael heb ei reoli i raddau helaeth y cyfeirir ato fel 'Rhan B'. Mae Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn awr yn cael eu dosbarthu fel Rhan B ac mae'r diwygiad arfaethedig hwn yn berthnasol yn unig i'r math hwn o gaffael.

- Mae'r amser, yr ymdrech a'r gost o ddilyn y gweithdrefnau presennol o fewn ein Rheolaeth Gweithdrefnau Contractau yn wrthgynhyrchiol gan nad yw'r arbedion wrth gynnal ymarfer caffael llawn bob tro, yn hytrach nag ymestyn tymor y cytundeb, wedi esgor ar lawer o arbedion. Felly, mae cyfle i ddefnyddio'r hyblygrwydd yn y ddeddfwriaeth ar gyfer y math hwn o gaffael gwasanaethau i greu effeithlonrwydd.

- Mae'n bwysig nodi bod menter genedlaethol dan arweiniad yr WLGA i dreiglo cyfres safonol o CPR's i bob Awdurdod Lleol. Hefyd, ar y gorwel, mae newidiadau yn 2013 i'r drefn gaffael yn yr UE lle mae'r cynnig i uno Rhannau A a B. Bydd y Cyngor Llawn felly'n debygol o ystyried y Rheolau Gweithdrefnau Contractau eto ond yn llawer mwy manwl y flwyddyn nesaf.

Mae hefyd cyfle i ddiweddaru'r trothwy ar gyfer rhoi (gan gynnwys eithrio rhag tendro) contractau gan y Cabinet o £250,000 i £1 filiwn. Gosodwyd y trothwy presennol yn 2004 ac ni chawsant eu diweddaru ers hynny. Mae'r trothwy presennol fel a ganlyn:

Hyd at £100,000 gan y Prif Swyddog
O £100,000 i £250,000 gan yr Aelod Arweiniol
Dros £250,000 gan y Cabinet.

Treulir amser sylweddol Swyddogion ar y contractau gwerth is er mwyn cymeradwyo'r contract a hefyd bydd cynyddu trothwy'r Cabinet hefyd yn rhyddhau amser y Cabinet i ddelio â materion gwerth uwch neu unrhyw fater arall. Y cynigion yw:

a) y Pennaeth Gwasanaeth ar ôl ymgynghori gyda'r Prif Swyddog Cyllid os bydd gwerth y contract o dan £250,000
b) Aelod o'r Cabinet y mae portffolio'r gwasanaeth yn rhan o'i gylch gwaith ar sail adroddiad gan y Prif Swyddog os bydd gwerth y contract rhwng £250,000 a £1,000,000.

c) yn dilyn adroddiad i'r Cabinet os bydd gwerth y contract dros £1,000,000.

Sicrheir Aelodau bod y goblygiad cyfreithiol i gydymffurfio gyda threfn Caffael yr UE yn aros ac nad yw'n effeithio ar lefelau dyfarnu mewnol y Cyngor.

O safbwynt y Pwyllgor Agor Tendrau, roedd yr Aelodau'n credu os oedd arolygiaeth annibynnol a diogeledd yna na fyddai'n rhaid i Aelodau Arweiniol fod yn bresennol. Y newid arfaethedig yw bod yr Aelod Arweiniol yn cael cyfle i fynychu os bydd yn dymuno ac i gael rhybudd rhesymol. Mae hwn yn awr wedi'i osod yn y drafft o fewn y rheolaeth ar CPR 22.2 i Aelodau ei weld. Ar hyn o bryd, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gweithio ar y system agor tendrau diwygiedig er mwyn edrych ar feysydd lle gallwn wneud hyn yn fwy effeithlon.

4.14 **Gweithdrefn Gwrandawiad y Pwyllgor Safonau**

Mae'r weithdrefn ar gyfer delio â gwrandawiadau am honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad gan y Pwyllgor hwn wedi'i amlinellu ar ôl y Cod i wella tryloywder a ffydd yn y broses.

4.15 **Protocolau**

- **Protocol Hunan-Reoleiddio**

Cafwyd trafodaeth ymhlith yr Aelodau yn y gweithdy am gynnwys y Protocol Hunan-Reoleiddio i ddelio â chwynion is na'r trothwy o fewn y cod ymddygiad ar lefel mwy lleol lle'r oedd y cwynion hynny wedi'u gwneud gan Aelod o'r Cyngor Sir yn erbyn Aelod arall. Credai'r Aelodau bod hyn yn beth da gan gadarnhau y dylai'r protocol gael ei gynnwys yn y Cyfansoddiad. Gwelir hyn yn awr yn yr adran protocolau. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn gwneud llawer wrth ddatblygu'r ddogfen hon ac yn argymell ei fabwysiadu. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd wedi gweld y drafft ac yn cymeradwyo'r ymagwedd a awgrymwyd.

- **Protocol ar gyfer Cysylltu ag Aelodau**

Mae hwn yn rhoi arweiniad i Swyddogion am hysbysu'r aelodau lleol.

- **Protocol ar Fynediad Aelodau i Wybodaeth**

Arweiniad i Aelodau ar eu hawliau i fynediad i wybodaeth. Mae'r ddogfen hon yn mynd ymhellach na dim ond ail-adrodd y mynediad i reolau gwybodaeth.

- **Cod Arfer Gorau mewn Materion Cynllunio**

Mae hwn wedi'i fabwysiadu'n barod gan y Cyngor Llawn yn 2008 ond nid oedd wedi'i gynnwys cyn hyn o fewn y Cyfansoddiad.

- **Protocol ar gyfer Aelodau sy'n eistedd ar Gyrff Allanol**

Mae'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol wedi cytuno y dylai Aelodau gael arweiniad ar eu rôl ar gyrff allanol. Yn ychwanegol at yr arweiniad hwn, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd yn edrych ar adolygiad o'r angen am i Aelodau eistedd ar yr holl gyrff presennol.

- **Protocol ar rôl y Cadeirydd a'r Arweinydd wrth gynrychioli'r Cyngor**.

Mae hwn yn gosod yr arweiniad ar y rolau uchod o safbwynt ymweliadau pobl bwysig.

4.16 **Cynllun Dirprwyo i Swyddogion**

Mae'r mwyafrif o'r dirprwyadau swyddogion yn y Cyfansoddiad yn ddirprwyadau i'r Prif Weithredwr sydd wedyn yn gallu trosglwyddo'r awdurdod i swyddogion eraill. Cynigiwyd i Aelodau, ac roedden nhw'n cytuno, y dylai'r Cyfansoddiad fod yn fwy tryloyw ac y dylai'r cynllun dirprwyo gynnwys manylion y Penaethiaid Gwasanaethau y mae'r pwerau wedi'u dirprwyo iddyn nhw.

Y cynnig yw y dylid cael dirprwyadau cyffredinol i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol gyda dirprwyadau penodol yn cael eu gwneud i Benaethiaid Gwasanaethau (ac i Gyfarwyddwyr lle mae angen neu lle mae'n briodol) wedi'u gosod ar ffurf rhestr fel bod unrhyw swyddog, Aelod neu aelod o'r cyhoedd yn gallu adnabod yn hawdd pa Swyddog oedd wedi'i awdurdodi i gymryd pa gam dirprwyo. Pwysleisiwyd i Aelodau yn y gweithdy mai pwrpas cynllun o'r fath fyddai gwneud yr hyn sydd ar gael yn barod yn fwy eglur a thryloyw; nid y pwrpas oedd creu cyfres newydd o bwerau dirprwyedig. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r cynllun dirprwyo fod yn llawer mwy tryloyw.

Yn Rhan 9.2, mae Cynllun drafft arfaethedig Dirprwyo i Swyddogion

Nid yw hwn yn gynllun fydd yn adlewyrchu eu disgrifiad swydd ond yn gynllun o ddirprwyo gan y Cabinet, Cyngor Llawn neu Bwyllgor. Bydd Swyddogion y mae eu rôl yn golygu cydymffurfio gyda lefel uchel o reoleiddio, yn cael lefel llawer uwch o ddirprwyo er mwyn sicrhau Cyngor sy'n gweithio'n fwy effeithlon.

Bydd y Cynllun hwn yn dod yn 'ddogfen fyw', ac felly bydd yn rhaid ei ddiweddaru pan fydd deddfwriaeth newydd yn effeithio ar waith y Gwasanaeth neu fel arall yn cael ei diddymu. Bydd eitem sefydlog, o leiaf yn flynyddol, yn dechrau o hyn ar lefel Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol a Chyngor Llawn er mwyn mewnosod newidiadau i'r ddeddf pan a phryd y bydd hyn yn digwydd. Bydd newidiadau newydd yn llifo o Fesur Llywodraeth Leol Cymru ac mae hwn yn un maes fydd yn gofyn am ddiweddaru'r Cyfansoddiad a'r Cynllun Dirprwyo. Felly, er y bydd eitem sefydlog flynyddol, mae'n debygol o fod yn fwy aml.

Os wrth ymgynghori o ddydd i ddydd ar y Cynllun a'i ddilyn, bod meysydd nad sy'n glir neu sy'n achosi anawsterau yn y broses gwneud penderfyniadau neu fel arall, yna mae'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth wedi'i gynghori y dylid cyfathrebu hyn i'r Swyddog Monitro er mwyn i'r Cyngor hwn ystyried yr hyn (os bydd y ddeddf yn caniatáu) y gellir ei newid i wella prosesau.

4.17 **Rhyddid Gwybodaeth**

Trafodwyd y cysyniad o Banel Rhyddid Gwybodaeth o swyddogion sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i ddelio â cheisiadau rhyddid gwybodaeth yn flaenorol. Pwrpas y Panel fyddai sicrhau ymagwedd cyson i'r cais o eithriadau rhag datgelu. Mewn awdurdodau eraill lle mae Panel Rhyddid Gwybodaeth yn bodoli, y Panel yw'r unig gorff sydd â'r hawl i eithrio unrhyw wybodaeth rhag ei datgelu. Mae hyn yn esgor ar gyhoeddi gwybodaeth yn fwy tebygol gan y byddai ymagwedd corfforaethol cyson yn cael ei gymryd at geisiadau o eithriadau. Cyfeirir at y panel fel dirprwyaeth o fewn y Cynllun Dirprwyo Swyddogion yn Rhan 9.2

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r adolygiad yn ffurfio rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Busnesau o welliannau corfforaethol ac mae'n cyfrannu at y flaenoriaeth o Gyngor perfformiad uchel.

**6. Beth fydd y gost a sut bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiad i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Cynhaliwyd Gweithdy i'r Aelodau, anfonwyd holiaduron allan drwy'r post i bob Aelod yn unigol, ymgynghorwyd â Swyddogion yn helaeth a sefydlwyd Gweithgor a dau is-grŵp sydd wedi cyfarfod yn rheolaidd; mae'r cyngor llawn wedi derbyn trosolwg o'r cynigion cyn hyn.

Ni welwyd bod angen unrhyw ymgynghoriad allanol.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau a amlinellwyd yn adran 4.13 yn synhwyrol o gofio iddyn nhw gael eu hadolygu am 8 mlynedd.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae mwy o risg i beidio â diweddaru'r Cyfansoddiad. Rhaid i'r Cyfansoddiad diwygiedig adlewyrchu'r ddeddf a bydd y ddogfen yn cael ei sicrhau am ansawdd gan nifer o swyddogion o amrywiol ddisgyblaethau.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn disgwyl i'r Cyngor llawn fabwysiadu Cyfansoddiad.

Gall y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol wneud cynigion am newidiadau i

sicrhau bod y Cyfansoddiad yn parhau i alluogi'r Cyngor i ddarparu arweiniad clir i'r gymuned mewn partneriaeth gyda dinasyddion, busnesau a sefydliadau eraill fel yr amlinellwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor.  Mae'r Pwyllgor hwnnw'n awr yn argymell i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Yn Adrodd i:** **Y Cyngor Sir**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **27 Mawrth 2012**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Hugh Evans / Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gary Williams Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Adolygu Gwasanaeth y Crwner**

---

**1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn trafod canlyniadau adolygiad o ddarpariaeth gwasanaeth y crwner yn awdurdodaethau Gogledd Ddwyrain Cymru a Gogledd Canolbarth Cymru.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

2.1 Diben yr adroddiad yw amlinellu'r dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaeth a gweinyddiaeth i gefnogi awdurdodaethau Crwner Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd Canolbarth Cymru, yn dilyn marwolaeth y crwner blaenorol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Fod awdurdodaethau presennol, Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd Canolbarth Cymru, yn cael eu cyfuno i gynnwys ardaloedd pedwar awdurdod lleol Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

3.2 Penodi Crwner llawn amser dros yr awdurdodaethau cyfunol.

3.3 Fod Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei benodi'r Awdurdod Arweiniol i ddarparu swyddfeydd i'r Crwner a gweinyddiaeth i gefnogi'r gwasanaeth.

3.4 Bod costau'n cael eu rhannu yn ôl poblogaeth.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae crwneriaid yn swyddogion barnwrol annibynnol yn cael eu penodi a'u talu gan yr awdurdodau lleol perthnasol. Maen nhw'n gyfrifol am ymchwilio i farwolaethau treisgar, annaturiol, marwolaethau sydyn heb achos amlwg a marwolaethau amheus yn y ddalfa.

4.2 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n gyfrifol am y gyfraith a'r polisi ynghylch crwneriaid ac mae'n ymdrin â gweithredu'r system crwner bresennol. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Cydlynu traws llywodraethau ar faterion crwneriaid

- Ymholiadau a chyngor i weinidogion, crwneriaid, awdurdodau lleol a'r cyhoedd
- Cydlynu â chrwneriaid a grwpiau profedigaeth
- Hyfforddi crwneriaid a'u staff
- Goruchwylio cyfuno rhanbarthau crwneriaid
- Gwaith achos statudol arall

4.3 Ar ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996, cafodd tair awdurdodaeth crwner eu sefydlu yng Ngogledd Cymru, mae dwy yn berthnasol i'r adroddiad hwn, sef:

- Gogledd-ddwyrain Cymru yn cynnwys Wrecsam a Sir y Fflint sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Gogledd Canolbarth Cymru yn cynnwys Sir Ddinbych a Chonwy sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir Ddinbych.

4.4 Ers 1996 mae Sir Ddinbych a Wrecsam wedi gweinyddu'u gwasanaethau ar wahân yn unol â chyfrifoldebau eu cynghorau unigol a chyda gweinyddiaeth eu hunain, ar wahân. Felly, mae'n amserol cynnal adolygiad o awdurdodaethau Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd Canolbarth Cymru ac archwilio'r dewisiadau sydd ar gael.

**Y Sefyllfa Bresennol**

4.5 Mae Cyfreithiwr mewn practis yn Ddirprwy Grwner ar hyn o bryd dros Ogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd Canolbarth Cymru. Mae wedi aros yn Ddirprwy Grwner ers ymddiswyddiad ac yna farwolaeth y Crwner rhan amser blaenorol a oedd yn gweithredu dros y ddwy ardal, ac mae'n cael ei alw'n gyhoeddus yn aml ar hyn o bryd fel Crwner Dros Dro.

4.6 Unwaith y bydd Crwner yn cael ei ph./ benodi mae'n annhebyg y cynhelir unrhyw adolygiad nes y daw'r swydd yn wag. Mewn llawer o achosion, gallai hynny fod yn flynyddoedd gan fod Crwneriaid yn aml yn dal y swyddi tan oedran ymddeol a thu hwnt. Er enghraifft, gallai Crwner yn derbyn swydd yn 40 oed olygu na chynhelid adolygiad am o leiaf 30 mlynedd, nes y deuai'n amser i ddeilydd y swydd ymddeol.

4.7 Does dim oedran ymddeol mandadol i Grwneriaid. Fodd bynnag, mae gan y rhai sy'n dewis ymuno â chynllun pensiwn y llywodraeth leol hawl i barhau yn y swydd â phensiwn tan yn 70 mlwydd oedd ac yna, o flwyddyn i flwyddyn, trwy gydgytundeb gyda'r cyngor perthnasol ar ôl hynny. Effaith ymarferol hynny yw bod y rhan fwyaf o grwneriaid yn dewis ymddeol tua'r adeg y daw eu cyfraniadau pensiwn i ben.

4.8 Felly, mae'n amserol adolygu gwasanaeth y Crwner ac edrych ar ddarpariaeth y gwasanaeth yn y ddwy awdurdodaeth. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder yn awyddus i archwilio'r posibilrwydd o uno awdurdodaeth y ddwy ardal, yn enwedig gan fod y ddwy ardal yn cael eu gwasanaethu'n rhan amser ac mae hefyd o blaid swydd Crwner llawn amser, fel sydd wedi'i osod yn y Mesur Crwneriaid a Chyfiawnder. Mae hynny'n cael ei gefnogi gan Gymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr sydd, yn gyffredinol, yn dewis y trefniant hwn. Dyna

ddigwyddodd yn achos mewn un o'r adolygiadau mwy diweddar, pan benodwyd Crwner llawn amser i Mid Kent a Medway ym mis Rhagfyr 2010.

4.9 Efallai y bydd cyflwyno archwiliadau meddygol, y disgwylir eu cyflwyno ym mis Hydref 2013, hefyd yn effeithio ar y nifer o achosion sy'n cael eu hymchwilio ac ar faint o achosion cwest a fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

**Llwyth Achos**

4.10 Yn seiliedig ar y ffigyrau diweddaraf gan y Gweinidog Cyfiawnder, 1,242 oedd cyfartaledd nifer y marwolaethau a riportiwyd am y cyfnod 2004 / 2009 yn awdurdodaeth Gogledd-ddwyrain Cymru a 1,612 yn awdurdodaeth Gogledd Canolbarth Cymru h.y. cyfanswm o 2,854.

4.11 Y nifer o achosion a argymhellir sy'n gwarantu ystyried penodiad llawn amser yw 2,000. Fodd bynnag does dim rheolau llym ynghylch hynny ac mae nifer yr achosion yn amrywio o ranbarth i ranbarth ac felly hefyd y dewis o gael Crwner rhan amser neu lawn amser. Serch hynny, sefydlwyd y byddai llwyth achos o 2,800 – 2,900 o farwolaethau'n rhesymol i grwner llawn amser.

**Cyllideb**

4.12 Cyfanswm cyllideb blynyddol i Grwneriaid yn awdurdodaeth Gogledd-ddwyrain Cymru yw £340.065 a £375,461 yn awdurdodaeth Gogledd Canolbarth Cymru, sef cyfanswm cyllideb gyfunol o £715,526. Mae'n bwysig nodi nad oes, yn awdurdodaeth Gogledd-ddwyrain Cymru, gyllideb benodol erioed wedi'i gosod ar naill ochr ar gyfer cefnogaeth weinyddol i Wasanaeth y Crwner. Yn hanesyddol mae hyn wedi'i wneud ar sail llwyth gwaith ychwanegol ac ewyllys da ar ran y Timoedd Gwasanaethau Etholiadol. Nid yw'n ymddangos yn unrhyw le fel costau ychwanegol ac felly nid yw'n adlewyrchu'r sefyllfa gyllidebol wirioneddol y gwasanaeth. Mae cyllideb yn cael ei dyrannu i'r Awdurdod Lleol ar gyfer gweinyddu yng Ngogledd Canolbarth Cymru ac mae hynny'n cael ei amlygu o fewn y côd cyllideb.

4.13 Er bod y ddau awdurdod lleol yn gweinyddu'r cyllidebau, mae'r gwariant yn gyffredinol yn gwbl ddibynnol ar lwyth achos ac felly y tu allan i'w rheolaeth. Mae'r gyllideb flynyddol yn cael ei gorwario'n gyson yn y ddwy awdurdodaeth.

4.14 Yn ogystal, does dim darpariaeth gyllidebol ar gyfer 'taliadau cwest hir' a allai godi. Pan geir digwyddiadau felly, a bod crwner rhan amser mewn swydd, mae ganddo ef neu hi hawl i daliad ychwanegol ar ben y tâl arferol. Dengys profiad yn y gorffennol y gallai hynny fod yn gost arwyddocaol. Er enghraifft, canlyniad cwest y cynhaliwyd ym mis Mehefin 2007 i farwolaeth nifer o feicwyr yn Sir Ddinbych oedd taliadau ychwanegol o tua £12,500 i'r Crwner. Petai achosion eraill o'r fath yn codi, byddai'n rhaid canfod yr arian a byddai hynny'n cynyddu'r gorwario presennol.

4.15 Fodd bynnag, byddai'r broblem o daliadau 'cwest hir' yn cael ei diddymu pe dewisid penodi Crwner llawn amser. Gellid ystyried y dewis yma fel polisi yswiriant yn erbyn pwysau cyllidebol annisgwyl, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

4.16 Mae Atodiad 2 yn cymharu costau pedwar dewis sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn. Yn seiliedig ar ffigyrau llwyth achos diweddaraf, dim ond y dewis o awdurdodaeth gyfun gydag un Crwner rhan amser sy'n dangos unrhyw arbedion cost arwyddocaol. Fodd bynnag, ystyrir fod y dewis yma'n annhebyg o fod yn gynaliadwy yn y tymor hir fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 4.21. Mae'r dewis o Grwner llawn amser yn dangos ychydig o gynnydd mewn costau.

**Dewisiadau Gwasanaeth yn y Dyfodol**

4.17 Mae pedwar prif ddewis wedi'u nodi o ran darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

(i) Cynnal y trefniant presennol h.y. dau grwner rhan amser gyda threfniant gweinyddol ar wahân.

(ii) Cynnal y ddwy awdurdodaeth gyda dau grwner rhan amser ond cyfuno'r trefniadau gweinyddol.

(iii) Creu awdurdodaeth sengl newydd yn cynnwys y pedwar awdurdod lleol, gyda chanolfan weinyddol sengl a phenodi un crwner llawn amser h.y. byddai un Awdurdod Arweiniol sengl.

(iv) Creu awdurdodaeth sengl newydd yn cynnwys y pedwar awdurdod lleol, gyda chanolfan weinyddol sengl a phenodi un crwner rhan amser h.y. byddai un Awdurdod Arweiniol sengl.

**Dewis 1 – Cynnal y trefniant presennol**

4.18 Er bod y trefniant presennol wedi gweithio'n gymharol dda, teimlir y byddai anfanteision arwyddocaol mewn parhau gyda'r trefniant hwn. Yn benodol, mae'n anodd trefnu a rheoli'r gwasanaeth gyda Chrwner rhan amser sydd hefyd â phractis fel cyfreithiwr. Yn ogystal, mae'r gweithdrefnau gweinyddol yn cael eu dyblygu yn y ddwy awdurdodaeth.

**Dewis 2 - Cadw'r ddwy awdurdodaeth ond cyfuno'r trefniadau gweinyddol**

4.19 Mae'r dewis yma'n cael gwared ar ychydig o'r aneffeithlonrwydd sydd wedi'i amlygu yn newis 1 a gallai, yn y pendraw, arwain at arbedion drwy gael prosesau a gweithdrefnau mwy effeithlon a llyfn. Fodd bynnag, ni fyddai'n ateb y broblem o gael rhagor o reolaeth.

**Dewis 3 - Uno'r ddwy awdurdodaeth a phenodi un Crwner llawn amser**

4.20 Dyma ddewis y Gweinidog Cyfiawnder a Chymdeithas y Crwneriaid. Er mai hwn yw'r unig ddewis sy'n dangos cynnydd posibl mewn costau, teimlir fod y manteision anariannol a mwy o sicrwydd o ran costau yn fwy na gwneud i fyny am y cynnydd bychan. Yn benodol, byddai problemau cael mwy o reolaeth cael eu hateb, byddai'r Crwner yn swyddfeydd y cyngor. Byddai proffil y gwasanaeth hefyd yn cael ei godi. Byddai'n bosibl hefyd, yn y tymor hir, cael arbedion ariannol gan y gallai un uned weinyddol fod yn rhatach.

**Dewis 4 - Uno'r ddwy awdurdodaeth a phenodi un Crwner rhan amser**

4.21 Mae llawer o fanteision i'r dewis o benodi crwner llawn amser, ac efallai, hefyd arbedion. Fodd bynnag, hwn hefyd yw'r dewis lleiaf ymarferol. Mae graddfeydd tâl Crwner yn cyfyngu cyflog Crwner rhan amser i 2,000 o achosion y flwyddyn.

Mae'r llwyth achos presennol dros 2,800 i'r ddwy awdurdodaeth, ar gyfartaledd. Mae'n bosibl felly, dehongli y byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â thua 800 o achosion yn ddi-dâl. Mae'n annhebyg o fod yn sefyllfa a fyddai'n denu ymgeiswyr.

4.22 Mae crynodeb o fanteision ac anfanteision pob dewis ynghlwm fel Atodiad 1.

4.23 Argymhelliad swyddogion y ddau Awdurdod Arweiniol presennol yw dewis 3 h.y. cyfuno'r ddwy awdurdodaeth bresennol a phenodi un crwner llawn amser.

4.24 Petai dewis 3 yn cael ei fabwysiadu, dim ond un Awdurdod Arweiniol fyddai ei angen. Hygyrchedd yw'r ffactor allweddol wrth benderfynu ar hyn a theimlir fod lleoliad canolog Sir Ddinbych yn ei gwneud yn ddelfrydol ar gyfer lleoli crwner llawn amser. Byddai'r crwner yn dal yn gyfrifol am benderfynu ymhle i gynnal cwest unigol, yn seiliedig ar ffactorau megis hygyrchedd. Gellid, felly, gynnal cwest yn unrhyw un o'r pedair ardal sirol.

4.25 Ffactor arall mewn penderfynu ynghylch Awdurdod Arweiniol yw un o allu rheolaethol. Ymddengys mai dim ond gan Sir Ddinbych mae'r gallu ar hyn o bryd.

4.26 Argymhellir ymhellach fod y costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth yn cael eu rhannu rhwng y pedwar awdurdod sir ar sail cymhareb poblogaeth.

**Goblygiadau cyfreithiol**

4.27 Mae Crwneriaid sy'n gweithio mewn awdurdodaethau yng Nghymru cael eu hystyried yn Grwneriaid Cymru Gyfan. Fodd bynnag, pe penderfynid uno dwy awdurdodaeth Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd Canolbarth Cymru, byddai angen Gorchymyn oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder i ddod â hyn i rym.

## 5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cadarnhau trefniadau llwyodraethu a gweinyddol addas ar gyfer Gwasanaeth y Crwner yn gyson ag amcanion y Cyngor i foderneiddio ei wasanaethau mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r costau'n cael eu dangos yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Ni ddylai adolygiad o wasanaeth y crwner gael unrhyw effaith ar wasanaethau eraill y Cyngor.

## 7. Pa ymgynghori a wnaed?

7.1 Hysbyswyd Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod gwasanaeth y Crwner yn cael ei adolygu a gofynnwyd am eu sylwadau. Ar yr adeg yma, dim ond Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi ymateb, gan nodi fod 'Heddlu Gogledd Cymru wedi mwynhau perthynas da ac effeithiol ers nifer o flynyddoedd gyda'r crwneriaid ac yn edrych ymlaen at gynnal y berthynas bositif yma'.
Gofynnwyd hefyd i Gynghorau Sir y Fflint a Chonwy am eu sylwadau.

7.2 Ymgynghorwyd â'r Dirprwy Grwner a bydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd yr adolygiad.

7.3 Mae Cymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr wedi nodi mai Crwner llawn amser yw eu dewis nhw. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder hefyd yn cefnogi'r dewis o uno'r awdurdodaethau a phenodi crwner llawn amser.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r cynigion yn dangos cynydd bychan iawn yn y gost o tua £1,600 a fydd yn cael ei daenu ar draws y pedwar Cyngor a dylai gael ei gadw o fewn y cyllidebau presennol. Dylai, fodd bynnag, wella darpariaeth y gwasanaeth.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r adolygiad wedi dangos cynnydd bychan yn y gost o ran dewis 3, ond, byddai penodi crwner llawn amser yn hepgor gorfod talu am gwest hir ac yn rhoi rhagor o sicrwydd cyllidebol. Bydd yr awdurdodau'n ad-dalu'r costau ar sail poblogaeth.

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

A 1 Deddf Crwneriaid 1988

**Atodiad 1**

## Gwerthusiad o Ddewisiadau

### Dewis 1

### Dau Grwner gwahanol Rhan Amser ac 1 Dirprwy, dim uno Gweinyddiaeth Awdurdodau Lleol (fel ar hyn o bryd)

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Yn cadw'r staus quo | Diffyg rheolaeth gyllidebol ar y gwasanaeth |
| Yn gweithio'n gymharol dda ar hyn o bryd | Cymhleth i'w reoli |
| | Mwy o fiwrocratiaeth |
| | Dyblygu'r broses weinyddol |
| | Perygl o ddyblygu taliadau |
| | Perygl o gwest hir ac felly costau ychwanegol a allai fod allan o reolaeth |

### Dewis 2

### Dau Grwner gwahanol Rhan Amser ac Uno Gweinyddiaeth Awdurdodau Lleol

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Byddai uno gweinyddiaeth yr Awdurdodau Lleol yn lleihau biwrocratiaeth a dyblygu a gallai arwain yn y pendraw at arbed costau | Diffyg rheolaeth gyllidebol ar y gwasanaeth |
| Lleihau'r posibilrwydd o ddyblygu taliadau | Cymhleth i'w reoli |
| Dim problemau ynghylch y system bresennol o ran y cyhoedd na staff y crwner. | Perygl o gwest hir ac felly costau ychwanegol a allai fod allan o reolaeth |

### Dewis 3

### Crwner llawn amser ar gyfer awdurdodaethau a gweinyddiaeth wedi'u huno

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Codi proffil y gwasanaeth | Amser segur llwyth achos |
| Y potensial i adeiladu'r gwasanaeth yn ganolfan o ymarfer gorau | Ychydig o gynnydd yn y gost, ond dim taliadau cwest hir, felly byddai'r awdurdodau lleol yn gallu cyllidebu gyda mwy o sicrwydd |
| Y Crwner fydd yn rheoli'r awdurdodaeth. | Posibilrwydd o fwy o amser teithio i deuluoedd er mwyn bod yn bresennol mewn cwest os mai dim ond un lleoliad llys sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y pedair ardal awdurdod. Fodd bynnag, mae modd goresgyn hynny wrth ofyn i'r crwner deithio i gynnal cwest mewn gwahanol fannau. |
| Gwell cysylltiadau gyda'r holl randdeiliaid. | Llai o gyfraniad gan yr Awdurdodau Lleol ar lefel lleol. |
| Un system lefn, ganolog. | |
| Un Awdurdod Lleol ar gyfer tâl ac amodau. | |
| Un datganiad blynyddol | |
| Atebolrwydd a thryloywder clir | |
| Llwyth achos a darparu gwasanaeth cyson | |
| Dim perygl o daliadau 'cwest hir' | |
| Byddai uno gweinyddiaeth yr Awdurdodau Lleol yn lleihau biwrocratiaeth a dyblygu a gallai arwain yn y pendraw at arbedion cost | |

**Dewis 4**

**Un Crwner rhan amser ar gyfer awdurdodaethau wedi'u huno**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Ar hyn o bryd mae'n cael ei wneud gan yr un person (er ar gyfer dwy awdurdodaeth ar wahân) | |
| Y Crwner yn gweithio o un swyddfa ganolog yn rhan amser | Gallai'r llwyth achos cyfunol fod yn ormod i swydd rhan amser |
| Tryloyw | Posibilrwydd o fwy o amser teithio i deuluoedd er mwyn bod yn bresennol mewn cwest os mai dim ond un llys sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y pedwar awdurdod. |
| Un datganiad blynyddol | Gall llai o ymgeiswyr fod â diddordeb mewn swydd rhan amser sengl |
| Un system lefn ganolog sydd wedi'i sefydlu. | Mae nifer presennol o achosion yn disgyn y tu allan i'r graddfeydd tâl am grwner rhan amser. |
| Un Awdurdod Lleol ar gyfer tâl ac amodau. | Gallai cyflog isel fod yn rhwystr i allu penodi ymgeisydd o'r calibr priodol |
| Arbedion cyllidebol | Gall taliadau cwest hir anfesuradwy leihau / dileu unrhyw arbedion. |

**Cost y Dewisiadau** — **Atodiad 2**

| | Y SEFYLLFA BRESENNOL - DEWIS 1 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 x Crwner rhan amser | 2 x dirprwy Grwner rhan amser | Cymhorthwyr marwdy gyda'r crwner | A Ll yn ad-dalu llety a threuliau | Gweinyddwr yn cael ei gyflogi gan A Ll | Costau post mortem ac eraill | CYFANSWM |
| GWARIANT NET | 97,464 | 11,790 | 13,000 | 36,587 | | 556,685 | 715,526 |
| *** CYFANSWM CYFLOGEION | 95,406 | 11,104 | 13,000 | 36,587 | - | | 156,097 |
| *** CYFANSWM CLUDIANT | 2,058 | 686 | | | | | 2,744 |
| **** CYFANSWM CYFLENWADAU A GWASANAETHAU | | | | | | 556,685 | 556,685 |

| | DEWIS 2 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DEWIS 2<br>- Cyfuno gweinyddiaeth A Ll<br>- Cyfartaledd llwyth achos 5 mlynedd 2004>2009 | 2 x Crwner rhan amser | 2 x dirprwy Grwner rhan amser | Cymhorthwyr marwdy gyda'r crwner | A Ll yn ad-dalu llety a threuliau | Gweinyddwr yn cael ei gyflogi gan A Ll | Costau post mortem ac eraill | CYFANSWM | ARBEDION / (COSTAU YCHWANEGOL) |
| GWARIANT NET | 97,410 | 11,974 | 12,500 | 37,000 | | 556,685 | 715,569 | - 43 |
| *** CYFANSWM CYFLOGEION | 95,410 | 10,974 | 12,500 | 37,000 | - | | 155,884 | |
| *** CYFANSWM CLUDIANT | 2,000 | 1,000 | - | | | | 3,000 | |
| **** CYFANSSWM CYFLENWADAU A GWASANAETHAU | | | | | | 556,685 | 556,685 | |

Tudalen 22

| DEWIS 3<br>- 1 crwner rhan amser ar draws 4 sir<br>- 1 dirprwy grwner rhan amser<br>- Cyfuno gweinyddiaeth A Ll<br>- A Ll i ddarparu swyddfeydd a llys | DEWIS 3<br>1 x crwner llawn amser | 1 x dirprwy Grwner rhan amser | Cymhorthwyr marwdy gyda'r crwner | Swyddfeydd gan A Ll | Gweinyddwr yn cael ei gyflogi gan A Ll | Costau post mortem ac eraill | CYFANSWM | ARBEDION / (COSTAU YCHWANEGOL) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWARIANT NET | 112,000 | 13,000 | 12,500 | - | 23,000 | 556,685 | 717,185 | - 1,659 |
| *** CYFANSWM CYFLOGEION | 110,000 | 12,000 | 12,500 | - | 21,000 | | 155,500 | |
| *** CYFANSWM CLUDIANT | 2,000 | 1,000 | - | | | | 3,000 | |
| **** CYFANSSWM CYFLENWADAU A GWASANAETHAU | | | | | 2,000 | 556,685 | 558,685 | |

| DEWIS 4<br>- 1 crwner rhan amser ar draws 4 sir<br>- 1 dirprwy grwner rhan amser<br>- Cyfuno gweinyddiaeth A Ll<br>- A Ll i roi swyddfeydd ond nid llys | DEWIS 4<br>1 x Crwner rhan amser | 1 x dirprwy Grwner rhan amser | Cymhorthwyr marwdy gyda'r crwner | Swyddfeydd gan A Ll, llogi llys | Gweinyddwr yn cael ei gyflogi gan A Ll | Costau post mortem ac eraill | CYFANSWM | ARBEDION / (COSTAU YCHWANEGOL) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWARIANT NET | 66,960 | 8,470 | 12,500 | 5,000 | 23,000 | 556,685 | 672,615 | 42,911 |
| *** CYFANSWM CYFLOGEION | 64,960 | 7,470 | 12,500 | | 21,000 | | 105,930 | |
| *** CYFANSWM CLUDIANT | 2,000 | 1,000 | | | | | 3,000 | |
| **** CYFANSSWM CYFLENWADAU A GWASANAETHAU | | | | 5,000 | 2,000 | 556,685 | 563,685 | |

Blaengynllun Gwaith y Cyngor Sir

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Diben yr adroddiad | A oes angen Penderfyniad y Cyngor (oes / na)? | Awdur - Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| 17 Ebrill | | | | | |
| | | | | | |
| 15 Mai (Cyfarfod Blynyddol) | 1 | Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Cyd ar Draphont Ddŵr Pontcysyllte a Safle Treftadaeth y Byd - Camlesi | Ceisio mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol | Oes | Eleri Evans / Graham Boase |
| | 2 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu | Adrodd ar weithgareddau'r pwyllgorau craffu yn ystod 2011 / 12. | Nac oes | Rhian Evans / Rhys Hughes |
| | 3 | Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol | Adolygiad blynyddol statudol o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol | Oes | Gary Williams / Steve Price |

**Cyfarfod y Dyfodol**

| Dyddiad | Eitem (disgrifiad / teitl) | Diben yr adroddiad | A oes angen penderfyniad y Cyngor (oes / nac oes)? | Awdur - Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| Medi 2012 (i'w | Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2010 / 2011 | Cymeradwyo dogfen Adolygu Perfformiad Blynyddol y | Oes | Tony Ward / Alan Smith |

| **Dyddiad** | **Eitem (disgrifiad / teitl)** | **Diben yr adroddiad** | **A oes angen penderfyniad y Cyngor (oes / nac oes)?** | **Awdur - Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt** |
|---|---|---|---|---|
| gadarnhau) | | Cyngor. | | |
| Cyfarwyddyd i'r Cyngor - Dyddiad i'w gyhoeddi | Cyflwyniad gan y Swyddog Cartrefi Gwag | Cynigiwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 1 Rhagfyr 2011 i hysbysu ynglŷn â rolau ac amcanion y swydd | Nac oes | I'w gadarnhau |
| Cyfarwyddyd i'r Cyngor - Mehefin / Gorffennaf 2012 | Cyflwyniad ar Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, y Fforwm Rhianta Corfforaethol a chyfrifoldebau rhianta corfforaethol cynghorwyr | Cynghori Aelodau o'u rolau a gwybodaeth ar drefniadaeth a pherfformiad. | Amherthnasol | Julie Moss |



*Nodyn i swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau'r Cyngor Llawn*

| *Cyfarfod* | ***Dyddiad Cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad Cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad Cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| *Ebrill* | ***3 Ebrill*** | *Mai* | ***1 Mai*** | | |

Diweddarwyd 16/3/2012 - SP

Council Work Programme.doc

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

# Eitem Agenda 8

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag